

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol a arsylwyd.

Cyflwyniad

Mae gwerthusiadau o ddigwyddiadau beirniadol, sef digwyddiadau bob dydd sy'n cael eu dehongli'n gritigol (Tripp, 2011; Joshi, 2018), yn gorfodi athrawon i adfyfrio ar ddigwyddiadau drwy edrych arnynt o berspectifau gwahanol ac ymchwilio i lenyddiaeth a theorïau presennol. Mae hyn wedi ei brofi i wella safon addysgeg ac o ganlyniad, sicrhau bod dysgu effeithiol yn cymryd lle (Joshi, 2018). Canlyniad hyn yw bod dysgwyr yn fwy tebygol o ddatblygu tuag at y pedwar diben a gyflwynwyd yn y Cwricwlwm i Gymru sy'n cael ei gyflwyno yn 2022. Dyma'r dyhead ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru, sef i dyfu'n:

- “ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas”.

(Donaldson, 2015)

Felly, bwriad y traethawd yma yw i ddefnyddio astudiaeth achos i binbwyntio ac adfyfrio ar ddigwyddiad critigol, darganfod beth yw barn a safbwyntiau llenyddiaeth a theorïau ar elfennau o'r digwyddiad, a dod i gasgliad ar werthusiad a chamau nesaf er mwyn gwireddu safonau dymunol ar gyfer fy ngyrfa fel athrawes.

Arsylwi

Mewn dosbarth derbyn byrlymus o tua 26 o blant, mewn ysgol yn Ne Cymru, arsylwyd cyflwyniad i wers ar y thema “Yr Hydref”. Roedd y cyflwyniad yma'n cymryd lle ar ddechrau'r diwrnod yn syth ar ôl i'r athro(awes) orffen y gofrestr. Yn ystod y cyflwyniad, roedd y disgyblion yn mynd dros eirfa a ddysgwyd eisoes mewn gêm o “Beth wela i?”. Pŵerbwynt oedd y gêm yma, lle mai dim ond rhan fach o lun Hydrefol a ddangoswyd, a roedd y plant yn gorfod dyfalu, gyda'r derminoleg Gymraeg gywir, beth oedd yn cael ei ddangos. Enghreifftiau o'r lluniau ddangoswyd yw draenog,

coedwig, dail. Fel y disgrifir yn atodiad 1, dwylo i fyny oedd yr unig fodd y câi'r plant ateb y cwestiynau ac wrth weiddi allan byddai eu hatebion yn cael eu hanwybyddu, neu byddai'r athrawes yn dweud wrthynt i fod yn dawel. Pan oedd y disgyblion yn cael yr atebion yn gywir, fe'u gwobrwywyd drwy ofyn iddynt symud eu peg i fyny ar siart dysgu ac ymddygiad. Roedd peg pob plentyn yn dechrau ar "barod i ddysgu" bob bore, ac yn dilyn gwobr, gallent symud i fyny i "da iawn".

Yn ystod yr amser cwestiynu, fe wnaeth un plentyn (sy'n cael ei gyfeirio fel X) siomi pan na chafodd ei ateb ei ystyried o ganlyniad i weiddi allan. Roedd hyn yn amlwg yn ei osgo corff pan groesodd ei friechiau, a thynnu wyneb trist. Yn dilyn y digwyddiad yma, ni chyfranogodd plentyn X o gwbl yng ngweddill y dasg cwestiynu. Felly ni chafodd siawns i gael ei wobrwyo a roedd yn erfyn i ddysgwyr eraill ateb y cwestiynau drosto.

Methodoleg

Y dull a ddefnyddiwyd i gasglu data yn yr arsylwad yma oedd astudiaeth achos, sy'n ddull effeithiol iawn pan fod angen ymchwil holistaidd, dwfn (Feagin, Orum & Sjoberg, 1991; Tellis, 1997). Mae'n hanfodol sicrhau bod dulliau ymchwil mor ddi-dduedd ag sy'n bosib (Mussen et al., 1990); felly wrth arsylwi, defnyddiwyd y dull "written record", sef cofnodi'n union beth sy'n digwydd (Hobart & Frankel, 2004).

Argymhella Yin (1994) bod astudiaeth achos llwyddiannus yn cynnwys pedwar cam, sef, yn gyntaf, cynllunio'r astudiaeth achos. Yn y mater hwn achos beirniadol yw'r dechneg a ddefnyddwyd. Yr ail gam yw arwain yr astudiaeth achos, felly cynnal yr arsylwad, yna dadansoddi'r dargynfyddiadau; yn y darn yma y cânt eu cymharu gyda llenyddiaeth. Yn olaf, eu hadfyfrio, gwerthuso a dod at gasgliad gydag argymhellion ar gyfer camau nesaf (Yin, 1994). Dyma yw'r camau a ddilynwyd yn yr ymchwil yma.

Yn y mater hwn roedd yr arsylwad yn anghyfranogol, sy'n dechneg addas gan ei bod yn anymwrthiol ac felly nid yw'n dylanwadu o gwbl ar ymddygiad y plant mewn unrhyw ffordd (Papatheodorou et al., 2013). Byddai defnyddio techneg gyfranogol wedi bod yn bosib hefyd, ond un fantais y dechneg a ddefnyddwyd yw'r ffaith bod yr arsylwr yn gallu ffocysu'n llwyr ar y tasgau dan sylw heb gael ei wrthdynnu o gwbl, a

felly'n gallu cadw nodiadau manwl, cywir (Papatheodorou et al., 2013). Mae hyn, o ganlyniad, yn sicrhau yr ymchwil mwyaf di-duedd sy'n bosib.

O'r arsylwad, deilliodd achos beirniadol, sef digwyddiad annisgwyl (heb ei gynllunio) sy'n digwydd yn ystod gwrs, sydd efallai'n rhan o drefn bob dydd, ond yn hytrach caiff ei ddehongli fel problem neu her (Joshi, 2018). Mae'n galluogi mewnwelediad i agweddau o ddysgu ac addysgu (Hertel, 2007) drwy beri i athrawon neu arsylwyr gwestiynu nid yn unig beth ddigwyddodd, ond pam digwyddodd yr achos, a beth yw arwyddocâd y digwyddiad (Tripp; 2013; Joshi, 2018). Caiff hwn ei ystyried yn ddull effeithiol iawn sy'n sicrhau bod athrawon yn adfyfrio'n feirniadol ar ddigwyddiadau, ac yn y pendraw yn dysgu o'r hyn ddigwyddodd, ac o ganlyniad yn gwella eu ffyrdd o ddysgu (Joshi, 2018). Mae digwyddiadau critigol hefyd yn creu cyfleoedd am weithrediad ymchwil, wrth ddarganfod problem a chynnal ymchwil i geisio datrys y broblem (Hertel, 2007), a dyma yw'r nod yma. Felly, mae'n dechneg effeithiol gyda'r nod o ganfod yr arfer da mae'r athro(awes) yn ei ddefnyddio, a'r arferion hwythau sydd ddim yn gweithio cystal (Joshi, 2018), sy'n arwain at archwilio am unrhyw ddatrysiadau.

Pedwar Diben

Mae'r Cwricwlwm i Gymru, fydd yn cael ei gyflwyno yn 2022, yn cynnwys pedwar diben, sef dyheadau a nodau y mae ysgolion yn cynllunio o'u hamgylch i gefnogi'r dysgwyr i gyrraedd ar ôl gadael addysg. Yn ôl y cwricwlwm, bydd holl blant Cymru yn cael eu cefnogi i ddatblygu'n:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus
- yn unigolion iach, hyderus (Donaldson, 2015).

O'r hyn a arsylwyd yn y dosbarth dan sylw, roedd y plant yn amlwg yn dechrau datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog gyda chymorth yr athrawes. Roedd hyn yn amlwg yn eu brwdfrydedd i wrando a chyfrannu ac ateb y cwestiynau ofynnwyd iddynt. Roedd pob un o'r plant yn awyddus i fod yn ymholgar ac yn amlwg

yn mwynhau datrys y broblem oedd o'u blaenau, sef gweithio allan beth oedd y rhan o'r llun oedd yn cael ei ddangos ar y sgrîn mewn gêm "Beth wela i?"

Un o brif nodau'r wers yma oedd datblygu gallu'r plant i gyfathrebu'n effeithiol drwy'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Gwyddai sawl un ohonynt yr ateb yn Saesneg, ond nod y dasg oedd eu hatgoffa o'r eirfa Gymraeg a ddysgwyd eisoes. Er enghraifft, fe geisiodd sawl plentyn ateb "forest", ond nid dyna oedd yr ateb roedd yr athrawes yn chwilio amdano, ac felly, pan gofiodd un o'r plant mai coedwig oedd yn Gymraeg, fe wobrwyoedd hi ef drwy godi ei beg ar y siart ymddygiad a dysgu, a hefyd fe gafodd sticyr. Yn dilyn hyn, gorfododd i'r dosbarth ailadrodd y gair "coedwig" sawl tro gyda'r athrawes.

Mae'n bwysig nodi mai continwwm o ddysgu yw'r cwricwlwm i Gymru, ac felly nid yw'n bosib arsylwi diben yn cael ei wireddu mewn un wers. Yn hytrach, proses yw'r daith i gyflawni'r pedwar diben a gaiff eu gyrru gan yr athrawes/athro. Yn y broses hon, dylai llais y dysgwr fod yn ganolog. Ac felly, gyda gweithgareddau tebyg drwy gydol addysg y dysgwyr sy'n cynnwys elfennau o'r diben yma, dylai arwain at ddysgwyr sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau.

Yn ystod y dasg dan sylw, cafodd sawl elfen o gefnogi dysgwyr i fod yn gyfranwyr mentrus, creadigol eu harsylwi. Roedd y plant yn cysylltu ac yn cymhwyso'r wybodaeth a ddysgwyd eisoes, ac yn gorfod meddwl yn greadigol i ddatrys y broblem yn y llun o'u blaen. Un elfen eglur a amlygwyd yn y wers oedd annog y plant i "fentro'n bwyllog", i ddilyn y rheolau osodwyd gan yr athro(awes) sef dwylo i fyny. Er yn awyddus i gynnig ateb i'r cwestiynau, roedd ymddygiad y plant yn bwyllog. Roedd pob plentyn hefyd yn awyddus i roi o'u hegri a'u sgiliau i rannu ateb gyda'r athrawes a'r dosbarth. O ganlyniad, roedd eraill yn elwa ac yn dilyn eu brwdfrydedd i ddangos eu bod am ateb, er nad oedd pob plentyn yn cael y cyfle i ateb cwestiwn. Wrth i ysgolion ddatblygu eu gweledigaeth i gefnogi dysgwyr gyda'r elfennau yma ar hyd y continwwm neu broses ddysgu, y gobaith yw y bydd y dysgwyr yn datblygu i fod yn gyfranwyr sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith yn ogystal.

Adolygiad Llenyddiaeth

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae plant yn dysgu i godi llaw i gael caniatâd i siarad neu ateb cwestiwn, ac o ganlyniad, mae llawer o athrawon yn dibynnu ar wirfoddolwyr i gyfranogi (Walsh & Sattes et al., 2015). Yn ôl Sahlström (2002), er bod codi llaw yn un o'r dulliau pwysicaf o gymryd tro mewn lleoliadau fel ysgolion, mae'n ffenomenon sydd wedi derbyn ychydig yn unig o sylw ym myd ymchwil. Ac wrth ddarllen, mae'n amlwg fod ymchwil yn cynnig syniadau a barnau gwrthgyferbyniol am effaith codi llaw yn y dosbarth.

Mae codi llaw yn ddull o ddangos i'r athro(awes), dysgwyr eraill a hyd yn oed dy hun, dy fod yn gwybod yr ateb (Streeck, 1993), a chrêd eraill ei fod yn ddull effeithiol o asesu ar gyfer dysgu (Dunn, 2017; William, 2014). Diffinir asesu ar gyfer dysgu gan Grŵp Diwygio Asesu (2002) fel proses mae athrawon a dysgwyr yn ei defnyddio i ddehongli tystiolaeth er mwyn penderfynu "ble mae dysgwyr yn eu dysgu, ble mae angen iddynt fynd nesaf, a sut orau i'w cael yno". Dywed William (2014) mai dyma yw prif nod y dull dwylo i fyny; er mwyn asesu ble mae dysgwyr arni o ran gwybodaeth, fel bod athrawon yn gallu cynllunio ar gyfer y camau nesaf, a chytuna Sahlström (2002) ei fod yn ddull effeithiol o fonitro cyfranogiad.

Ond ar y llaw arall, crêd Dunn (2017), er mwyn sicrhau'r dosbarth cynhwysol delfrydol lle mae dysgu gwych yn cael ei ysgogi, mae angen amrywio dulliau ychydig. Nodwyd hefyd gan Walsh a Sattes (2015) bod caniatáu i ddysgwyr benderfynu os ydynt am gyfrannu drwy godi llaw yn gallu cael effaith ar gynyddu'r bwlch cyflawni, gan ei fod yn gallu arwain at ddysgwyr yn eithrio eu hunain o drafodaethau dosbarth. Hynny yw, mae'r dysgwyr sydd yn fwy hyderus yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn trafodaethau ac ateb cwestiynau, ac felly mae dysgu effeithiol yn cymryd lle (William, 2014). Noda Williams (2014) bod eraill yn gwrthod y cynnig i ymgysylltu mewn tasgau, a chanlyniad hyn yw eu bod yn colli allan ar gyfleoedd i ddysgu effeithiol ddigwydd. Dywed hefyd, hyd yn oed er bod dwylo i fyny yn ddull a ddefnyddir i asesu ar gyfer dysgu, mae'n debygol iawn y bydd yr athrawon ond yn dewis cwpl o ddysgwyr i asesu eu dealltwriaeth, hyd yn oed os gwnânt hyn ar hap. Felly, mae gwneud penderfyniadau am y camau dysgu nesaf ar gyfer y dosbarth cyfan o'r hyn a aseswyd drwy ymateb ychydig o'r disgyblion, yn dueddol o gael effaith lai effeithiol a llwyddiannus (William, 2014). Felly, down i'r casgliad yn ei

farn ef nad yw'r dull dwylo i fyny er mwyn asesu ar gyfer dysgu yn darparu digon o wybodaeth am beth mae'r dosbarth cyfan yn ei wybod, ac felly angen dysgu.

Awgrymodd Dunn (2017) ambell strategaeth arall yn hytrach na chodi llaw. Un ohonynt oedd strategaeth cwestiynu "dim dwylo" sy'n golygu y gall yr athro(awes) ofyn i unrhyw ddysgwr, ac o ganlyniad nodir y gall hyn godi lefel ffocws y dosbarth. Mae dulliau o'r fath yn dileu'r elfen o wirfoddoli ac felly mae'n bosib eu bod yn cynyddu lefel ffocws yn y dosbarth ac yn gorfodi pob plentyn i feddwl drosto'i hun. Dadleua ? bod rhoi disgyblion dan bwysau i ateb cwestynau heb wirfoddoli yn gallu codi lefel o boen a phryder plant yn ystod y tasgau yma. Felly, i oresgyn hyn, mae angen sicrhau bod amgylchedd cadarnhaol yn y dosbarth lle mae plant yn ymwybodol ei bod yn iawn i wneud camgymeriadau neu i fod yn ansicr o'r ateb, a bod yna strategaethau mewn lle i oresgyn rhain, er enghraifft enwebu ffrind i helpu.

I grynhoi, mae'r dull dwylo i fyny yn ddull a ddefnyddir i asesu ar gyfer dysgu a sicrhau trefn yn y dosbarth. Er hyn, mae rhai yn dadlau y gall arwain at ddirywiad yn nysgu'r plant sydd ddim yn gwirfoddoli, ac o ganlyniad mae angen defnyddio amrywiaeth o strategaethau yn hytrach na dibynnu ar y dull yma.

Ystyriaeth arall a ddeilliodd o'r arsylwad oedd y plant yn cael eu gwobrwyo, drwy naill ai "sticyr" neu symud eu peg i fyny ar siart ymddygiad a dysgu, a hyn ar ôl ateb cwestiwn yn gywir. Mae'r arfer hwn yn adlewyrchu syniadau o theori'r ysgol ymddygiaeth (Watson, 1931; Skinner, 1953). Datblygodd Pavlov (1849-1936) theori ymddygiadol sy'n cael ei adnabod erbyn hyn fel cyflyru clasurol ('classical conditioning') drwy astudiaeth o gŵn (Payne, 2015). Esbonia'r theori yma bod dysgu'n dechrau gyda pherthynas ysgogiad ac ymateb, hynny yw, mae ysgogiad penodol yn arwain at ymateb penodol. Er enghraifft, wrth arsylwi sylweddolais, gan y gwyddai'r plant y byddent yn cael eu gwobrwyo mewyn rhyw ffordd, hyd yn oed gyda chlod, roedd pob un yn awyddus i ateb a phlesio'r athrawes. Mewn theori ymddygiadol arall, bu Skinner (1904-1990) yn sôn am gryfhau a gwella ymatebion, a hyn drwy atgyfnerthu (Pritchard, 2017). Defnyddia'r term 'atgyfnerthu' yn hytrach na 'gwobrwyo' wrth bwysleisio pwysigrwydd dulliau cadarnhaol o ddysgu, drwy gynnwys gwobrau, ond fe ddeallodd werth cosbi ymddygiad hefyd (Pritchard, 2017). Dywed B.F Skinner "a response followed by a reinforcing stimulus is strengthened

and therefore more likely to occur again". (Apps, 1981) Felly, drwy wobrwyo a chanmol ymddygiad da o godi llaw a pheidio gweiddi allan, a hefyd gwobrwyo am ateb cwestiwn yn gywir, mae hyn yn fwy tebygol o ysgogi'r dysgwyr i ailadrodd yr ymddygiad yma ac ymdrechu i ateb cwestiynau yn gywir. Trwy wobrwyo ymddygiad neu waith dymunol a chosbi gweithrediadau annymunol, crêd rhai y bydd yr ymddygiadau annymunol yn diflannu'n raddol ac yn gadael yn unig yr ymddygiadau a ystyrir yn fuddiol ar gyfer dysgu (Payne, 2015; Elliott & Busse, 1991).

Felly, o ystyried hyn, mae angen pwyso a mesur y mathau a'r defnydd o wobrwyo yn y dosbarth. Crêd Pritchard (2017) bod angen i'r gwobrau fod yn addas ac yn berthnasol i'r dysgwr, a rhaid iddynt fod ar gael yn gyfartal i bob dysgwr os ydynt yn plesio neu'n llwyddo. Mae'n bwysig ystyried y gall gwobr fod yn rhywbeth syml iawn. Awgryma hefyd y dylai gwobrau gynnwys dewis i ddileu y wobr (Pritchard, 2017), a dyma'n union oedd yr achos yn yr hyn a arsylwyd yn y dosbarth gyda'r siart dysgu ac ymddygiad. Câi'r plant symud i fyny fel gwobr, ond roedd yna ddewis hefyd i symud lawr tipyn o gamau os oeddent yn camymddwyn.

Mae yna lawer o ymchwil yn cefnogi'r syniadau ymddygiadol yma o wobrwyo yn y dosbarth. Nododd McBer (2001) yn ei adroddiad fod defnyddio gwobrau i ddylanwadu ar ymddygiad a pherfformiad mewn moddau cadarnhaol yn gwneud athro/awes effeithiol/llwyddiannus iawn. Cytuna Pritchard (2017) bod derbyn gwobr o ganlyniad i lwyddiant yn gynnwys addysg yn cynyddu hunan-barch a chymhelliant i barhau i weithio'n galed. Er hyn, crêd eraill fod gwobrwyo yn gallu bychanu a thynnu ystyr allan o brofiadau dysgu, gan arwain at deimladau o annhegwch neu deimladau cystadleuol (Pritchard, 2017). Ychwanega Pritchard (2017) fod gwobrau hefyd yn gallu neilltuo plant sy'n teimlo nad oes llawer o siawns ganddyn nhw i dderbyn gwobr, sydd o ganlyniad yn arwain at lai o ymdrech oddi wrthynt. Mae'n ddiddorol darllen hwn wedi arsylwi dysgwr X yn y wers yn siomi wedi i'w ateb gael ei anwybyddu am weiddi allan ac o ganlyniad, ni wnaeth gymryd rhan yng ngweddill y dasg sy'n peri cwestiwn ai dyma yw'r sefyllfa yn yr achos yma tybed? Efallai y teimlai'r disgybl nad oedd siawns ganddo gael ei wobrwyo. Gan nad oedd pawb yn cael cyfle i ateb ac felly nad oedd pawb yn cael cyfle i godi eu pegiau, a wnaeth y system wobryo yma achosi teimladau o annhegwch iddo ef, fel yr awgrymodd Pritchard (2017)? Er hyn, rhaid ystyried mai dim ond un sesiwn oedd yr

arsylwad, ac efallai bod gan yr athrawes system mewn lle i sicrhau bod pob plentyn yn ateb cwestiynau yn y sesiynau cwestiynu dwylo i fyny.

Pwysleisia Shreeve et al., (2002) bwysigrwydd perthynas yr athrawon gyda'r disgyblion. Dywed bod athrawon da yn cymell dysgwyr i berfformio ac ymddwyn, ac yn gallu gwneud hyn heb system wobrwyo ffurfiol yn ei lle. Ychwanega Hallinan (2008) bod cyraeddiadau dysgwyr yn uwch pan fod athrawon yn dangos empathi, yn defnyddio canmoliaeth a gwobrwyo ac yn trin y dysgwyr mewn ffordd maent yn canfod i fod yn deg. Cytuna Mansfield (2007) bod y ffordd mae'r plant yn canfod neu'n gweld y gwobrwyo yn effeithio ar eu hymdeimlad o ymberthyn yn yr ysgol, sydd yn y pendraw yn effeithio ar eu perfformiadau academaidd a'u hymddygiad. Gall hyn ddeillio o'r dysgwyr yn arsylwi beth sy'n digwydd i ddysgwyr eraill a sut maen nhw'n cael eu gwobrwyo, sy'n ennyn eu dealltwriaeth o'r system wobrwyo ac yn arwain at ymddygiad a chyfranogiad yn ôl eu canfyddiadau (Bandura; 1986, Schunk, 2014).

Noda Pritchard (2017) bod theorïau ymddygiaeth wrth wraidd ac yn allweddol ar gyfer llwyddiant mewn dysgu. Ond wedi pwyso a mesur, mae yna sawl ffactor i'w hystyried er mwyn i'r theori yma gael effaith gadarnhaol, ddymunol yn y dosbarth.

Gwerthuso,

Wedi arsylwi, adfyfrio, darllen ac ymchwilio, mae sawl dadl/pwynt diddorol i'w hystyried. Yn amlwg, mae gan bob plentyn mewn dosbarth alluoedd gwahanol, arddulliau dysgu dewisol gwahanol a phersonoliaethau gwahanol (Levy, 2008). Swydd athrawon heddiw yw sicrhau bod arddull ac ansawdd dysgu yn cwrdd ag anghenion pob plentyn yn y dosbarth ar bob achlysur, er mwyn rhoi'r addysg maent yn eu haeddu iddynt.

Wedi arsylwi'r dasg cwestiynu, profodd i mi pa mor heriol yw plesio pob dysgwr unigol mewn tasg dosbarth cyfan o'r fath, a chofio hefyd y byddai addasu'r dasg i ateb gofynion pob plentyn yn sialens. Serch hynny, rhaid nodi wrth ystyried a oedd y dasg yn un addas ar gyfer gallu pob dysgwr ei bod yn dasg digon syml gyda'r nod o

atgoffa ac atgyfnerthu. Yr hyn sydd yn anoddach i blesio pob dysgwr mewn tasg cwestiynu dosbarth cyfan yw'r dull a ddefnyddir i wneud hyn.

Dywed Brookfield (2017) bod ein gweithrediadau fel athrawon wedi'u seilio ar ragdybiaethau sydd gennym am sut i helpu disgyblion i ddysgu orau. Y ffordd orau i ddatgelu/ddarganfod y rhagdybiaethau yma yw drwy ystyried digwyddiadau neu sefyllfaoedd drwy bedwar lens gwahanol. Hynny yw, drwy lygaid y dysgwyr, canfyddiadau cydweithwyr, profiadau personol a thrwy theorïau ac ymchwil (Brookfield, 2017). Gelwir y broses yma yn adfyfyrio critigol, ac er mwyn bod yn athro llwyddiannus, nodir y dylai'r math yma o adfyfyrio ddigwydd yn rheolaidd ac yn gyson er mwyn cadarnhau dilysrwydd a chywirdeb ein rhagdybiaethau addysgu er mwyn sicrhau'r profiadau addysg gorau i'n dysgwyr (Brookfield, 2017).

O hyn, gallwn honni? ei bod yn hynod o bwysig i ystyried digwyddiadau drwy lensys gwahanol er mwyn sicrhau bod bwriad yr addysgu yn plesio'r disgyblion a'u bod yn derbyn yr addysg y maent yn ei haeddu.

Dull cwestiynu gwahanol a awgryma Dunn (2017) yw'r dull "dim dwylo", lle nad oes hawl gan y dysgwyr i godi llaw i ateb, a rôl yr athrawes yw hi i ddewis unrhyw ddysgwr ar hap. Crêd bod hyn yn codi lefel ffocws y dosbarth gan ddileu'r elfen o wirfoddoli, ac o ganlyniad gall unrhyw ddysgwr gael ei ddewis. Er hyn, mae'n beryg o hyd bod yr athro/awes yn dal i ddewis y rhai y gwyddant eu bod yn gallu ateb er mwyn gallu symud y wers ymlaen, ac felly nid yw'n ddull hollol ddi-duedd.

Strategaeth arall gaiff ei ddefnyddio'n aml yw ffyn lolipop, lle mae enwau'r plant i gyd yn cael eu hysgrifennu ar y ffyn ac yn cael eu dewis ar hap (Vickery, 2013). Noda Vickery (2013) mai maintais hyn yw ei fod yn hollol ar hap ac o ganlyniad mae'r dysgwyr yn derbyn hyn ac o ganlyniad maent wir yn ffocysu ar gynnwys gwrs rhag ofn eu bod yn cael eu dewis. Ar y llaw arall, noda hefyd nad yw'r dull yma'n sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ddewis yr un nifer o weithiau, ac er mwyn goresgyn hyn dylai'r athro/awes nodi pwy sydd wedi ateb, neu dynnu eu ffyn allan o'r pot nes bod pob plentyn wedi ateb cwestiwn dros gyfnod o amser penodol. Dull tebyg, diddorol rwyf wedi ei ddarganfod hefyd yw olwyn generadur enwau ar lein (fel y gwelir yn atodiad 4), lle caiff enw pob disgybl ei roi mewn i'r generadur olwyn, a'r olwyn yn troi ar y sgrîn i ddewis dysgwr i ateb. Er mwyn gwneud hyn yn deg hefyd, gall enwau

gael eu tynnu allan yn syth ar ôl cael eu dewis er mwyn sicrhau y nifer o gyfleoedd cyfartal i bob dysgwr. Mae'r dull yma yn sicr yn dod ag elfen hwylus, weledol i'r dysgu, ac mae'n siŵr o godi ffocws y plant hefyd.

Er bod y dulliau yma'n caniatáu cyfleoedd cyfartal i'r disgyblion, ac yn dileu'r elfen o wirfoddoli er mwyn atal dysgwyr i eistedd nôl mewn gwersi, mae'n bosib y gallant godi ymdeimladau o bryder neu emosiynau negyddol o wneud camgymeriadau neu os nad ydynt yn gwybod yr ateb (Koshy, 2000; Vickery, 2013). Felly, mae angen sicrhau strategaethau i osgoi hyn, er enghraifft defnyddio atebion anghywir fel trafodaethau am wallau a datrysiadau, neu ofyn i ffrind am help os nad ydynt yn gwybod (Spooner, 2002; Vickery, 2013). Mae sicrhau amgylchedd cadarnhaol yn y dosbarth lle mae'r dysgwyr yn ymwybodol ei bod yn iawn i wneud camgymeriadau ac archwilio am ddatrysiadau yn hanfodol er mwyn cael y canlyniadau dysgu dymunol (Vickery, 2013).

Wrth edrych ar y dull ffyn lolipop drwy lens y plant, gall hyn ddod ag elfen o hwyl i'r dysgu gan y gall dewis ar hap gynhyrfu dosbarth, a gorfodi iddynt ffocysu ar yr hyn mae'r athro/awes yn ei gyflwyno, yn hytrach nag erfyn i ddysgwyr mwy awyddus i ateb drostynt, neu siomi pan na chânt eu dewis er iddynt wirfoddoli. Er hyn, fel y nodir uchod, gall beri pryder i rai dysgwyr, ac felly mae'n bwysig bod strategaethau yn eu lle i osgoi hyn. Gan fod hyn yn ddull teg o gwestiynu, mae rhannu arfer da gyda chydweithwyr yn hynod o effeithiol, ac efallai gall y dull yma wella arferion addysgeg yn eu dosbarthiadau hwy. Gall cydweithwyr elwa o'r dull drwy weld gwelliant yn ymddygiad a hyder y plant mewn sesiynau cwestiynu. Fel athrawes, mae'n bosib y gallant dystio bod y plant llai abl neu sydd yn llai tebygol o ateb fel arfer, yn dysgu a chyfrannu mwy yn hytrach nag eistedd yn ôl. Yn olaf, mae llenyddiaeth a theorïau yn dangos syniadau gwrthgyferbyniol am ddulliau dwylo i fyny a dulliau dim dwylo, fel y nodwyd eisoes. Gallaf dynnu o hyn, nid wyf o'r farn bod angen dileu'r dull dwylo i fyny gan ei fod yn amlwg yn ddull effeithiol o gadw trefn ar y dosbarth ac o asesu ar gyfer dysgu (Williams, 2014). Er hyn, credaf ei bod yn bwysig iawn defnyddio dulliau amrywiol a pheidio dibynnu ar y dull yma'n ormodol, gan y gall, fel y profwyd yn y llenyddiaeth, gael effaith negyddol ar ddysgu (Williams, 2014).

Casgliad

Down i'r casgliad bod defnyddio dull dwylo i fyny'n gallu bod yn effeithiol ar rai achlysuron, er enghraifft i asesu ar gyfer dysgu nawr ac yn y man, i nodi cyfranogiad ac i sicrhau trefn ar y dosbarth. Felly, ni ddylid dileu'r dull yma'n gyfan gwbl. Ond, er mwyn sicrhau dosbarth cynhwysol lle mae pob dysgwr yn ymrwymo i bob tasg, mae angen defnyddio dulliau amrywiol o gwestiynu. Un dull a wnaeth sefyll allan yn y llenyddiaeth oedd ffyn lolipop, sy'n dileu'r elfen o wirfoddoli ac yn codi lefel ffocws yn y dosbarth. Fel athrawes yn y dyfodol, fy mwriad yw defnyddio dulliau amrywiol o'r fath, gan gynnwys hefyd "think, pair, share", generadur enwau, er mwyn hwyluso'r dysgu, osgoi i rai disgyblion eistedd yn ôl, a sicrhau cyfleoedd ateb teg. Bydd hyn yn galluogi i mi wireddu safon addysgeg effeithiol, drwy fireinio dulliau addysgu yn raddol a hybu dysgu.

Deallwn hefyd o'r llenyddiaeth bod gwobrwyo'n ddull effeithiol iawn o hybu ymddygiad a pherfformiad academiaidd da, cyhyd â bod y gwobrau'n rhai addas, ac yn rhai y gellid eu dileu os oes angen er mwyn sicrhau bod yr ymddygiad neu'r perfformiad yn para. Felly, byddai defnyddio dulliau tebyg i'r siart a arsylwyd yn ddull addas yn y dyfodol er mwyn hybu ymddygiad a pherfformiad da yn fy nosbarth. Bydd hyn yn arwain at lwyddiant yn y safon arloesi, drwy fod yn flaengar wrth ddatblygu technegau a reolir i wella deilliannau addysgeg.

I gloi, fel athrawes, yr ystyriaeth bwysicaf oll sy'n deillio o hyn yw pwysigrwydd bod yn adfyfyriol ac yn feirniadol er mwyn datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad sy'n nodweddu ymarfer rhagorol a fydd yn fy nghefnogi i dyfu'n broffesiynol.

Cyfeirnodï

Apps, J. W. (1981). *The adult learner on campus: A guide for instructors and administrators*. Chicago, IL: Follett.

Brookfield, S.D., 1987. *Developing critical thinkers: Challenging adults to explore alternative ways of thinking and acting*. Jossey-Bass.

Brookfield, S.D., 2017. *Becoming a critically reflective teacher*. John Wiley & Sons.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Hawlfraint y Goron. Caerdydd. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf>

Dunn, D., 2017. *How to be an Outstanding Primary School Teacher 2nd edition*. Bloomsbury Publishing.

Elliott, S.N. and Busse, R.T., 1991. Social skills assessment and intervention with children and adolescents: Guidelines for assessment and training procedures. *School Psychology International*, 12(1-2), pp.63-83.

Feagin, J., Orum, A., & Sjoberg, G. (Eds.). (1991). *A case for case study*. Chapel Hill, NC: University of North Carolina Press.

Hallinan, M.T., 2008. Teacher influences on students' attachment to school. *Sociology of education*, 81(3), pp.271-283.

HERTEL, T., 2007. Professional Development for Language Teachers: Strategies for Teacher Learning Edited by RICHARDS, JACK C., & THOMAS S. C. FARRELL. *The Modern Language Journal*, 91(1), pp.133-134.

Hobart, C. & Frankel, J. 2004. *A practical guide to child observation and assessment*. 3rd ed. Cheltenham: Nelson Thornes.

https://www.aaia.org.uk/storage/medialibrary/o_1d94qvqv3c4n1ndbdiuuni15v88.pdf

(asesu ar gyfer dysgu)

Hwb.gov.wales. 2020. [online] Available at:

<<https://hwb.gov.wales/storage/439cef1d-0428-42b6-82bf-f5153939b3df/cyflwyniad-ir-safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-taflen.pdf>> [Accessed 25 October 2020].

Joshi, K.R., 2018. Critical incidents for teachers' professional development. *Journal of NELTA Surkhet*, 5, pp.82-88.

Koshy, V. (2000) *Children's mistakes and misconceptions [Ch 11]* in Koshy, V. et al (2000) *Mathematics for Primary Teachers*, London, Routledge.

Levy, H.M., 2008. Meeting the needs of all students through differentiated instruction: Helping every child reach and exceed standards. *The Clearing House: A Journal of Educational Strategies, Issues and Ideas*, 81(4), pp.161-164.

Mansfield, C., 2007. Responding to rewards and sanctions: the impact on students' sense of belonging and school affect.

McBer, H., 2001. Research into teacher effectiveness. *Early Professional Development Of Teachers*, 68(216), pp.1-69.

Mussen, P., Conger, J., Kagan, J., & Huston, A. 1990. *Child development and personality*. 7th. ed. New York: Harper Collins

Papatheodorou, T., Luff, P. and Gill, J., 2013. *Child observation for learning and research*. Routledge.

Payne, R., 2015. Using rewards and sanctions in the classroom: Pupils' perceptions of their own responses to current behaviour management strategies. *Educational Review*, 67(4), pp.483-504.

Pritchard, A., 2017. *Ways of learning: Learning theories for the classroom*. Routledge

Sahlström, J.F., 2002. The interactional organization of hand raising in classroom interaction. *The Journal of Classroom Interaction*, pp.47-57.

Schunk, D.H., 2012. *Learning theories an educational perspective sixth edition*. Pearson.

Shreeve, A., Boddington, D., Bernard, B., Brown, K., Clarke, K., Dean, L., Elkins, T., Kemp, S., Lees, J., Miller, D. and Oakley, J., 2002. Student perceptions of rewards and sanctions. *Pedagogy, Culture & Society*, 10(2), pp.239-256.

Skinner, B.F., 1965. *Science and human behavior* (No. 92904). Simon and Schuster.

Spooner, M. (2002) *Errors and Misconceptions in Maths at Key Stage 2*. London: David Fulton.

Streeck, J., 1993. Gesture as communication I: Its coordination with gaze and speech. *Communication Monographs*, 60(4), pp.275-299.

Tellis, W., 1997. Application of a case study methodology. *The qualitative report*, 3(3), pp.1-19.

Tripp, D., 2011. *Critical incidents in teaching (classic edition): Developing professional judgement*. Routledge.

Vickery, A., 2013. *Developing active learning in the primary classroom*. Sage.

Walsh, J.A. and Sattes, B.D., 2015. *Questioning for classroom discussion: Purposeful speaking, engaged listening, deep thinking*. ASCD.

Watson, J. B. 1931. Behaviorism. London: Kegan Paul, Trench, Trubner.

William, D., 2014. The right questions, the right way. *Educational leadership*, 71(6), pp.16-19.

Yin, R.K., 1994. Discovering the future of the case study. Method in evaluation research. *Evaluation practice*, 15(3), pp.283-290.

Atodiad 1**Arsylwad / Nodiadau Maes**

(Addasiad o Fletcher Wood (2016))

Ymchwilydd: Sara Mai Davies

Dyddiad, amser, grŵp:

29/09/2020

9:05

Dosbarth Derbyn

Manylion y wers: (Cynnwys a ffocws -/MDaPh Pwnc- A yw e'n agos at gychwyn neu diwedd yr uned astudio? Tu fewn/tu fas? Ystod gallu? Unrhyw wybodaeth berthnasol arall?

Amser carped, lle mae'r plant yn chwarae gêm "Beth wela i?" er mwyn atgyfnerthu yr hyn maent wedi eu dysgu yn barod am y thema presennol, sef yr Hydref. Roeddent yn ailadrodd ac yn gorfod dyfalu'r geirfa a ddysgwyd yn barod, e.e. dail, coedwig, draenog.

Diwylliant y dosbarth

Beth yw 'naws' y dosbarth? Beth yw agweddau, rhagdueddiadau, ymddygiadau tuag at ddysgu ar hyn o bryd?

Roedd rhan fwyaf o'r plant yn amlwg yn awyddus i gymryd rhan ac ateb, roedd hwn yn amlwg wrth weld y niferoedd yn codi llaw i ateb y cwestiynau a gofynwyd gan yr athrawes. Nid oedd pob plentyn yn canolbwyntio'n llwyr, ond roedd yr athrawes yn hoelio sylw'r rhai oedd yn colli diddordeb neu'n troi i ffwrdd.

Roedd gwobrwyo yn ddull o ganmol y plant oedd yn ateb y cwestiynau drwy symud eu peg i fyny ar y siart ddysgu ac ymddygiad o 'barod i wrando' i 'da iawn', ac ambelle i blentyn yn cael sticyr am gofio enw yn y Gymraeg. A phan nes i ofyn i'r disgybl cwpl oriau yn ddiweddarach pam roedd wedi cael sticyr, fe atebodd 'achos o ni di gweud coedwig' - ac felly'r gwobr yma wedi gwneud iddo gofio'r gair - atgyfnerthiad positif. Ar y llaw arall → Un plentyn (X) yn siomi pan na chafodd ei ateb ei ystyried. Roedd hyn yn amlwg drwy iaith ei gorff, fe groesodd ei freichiau, pen i lawr a gwyneb trist. Ac o ganlyniad fe wrthododd drio eto i ateb drwy godi llaw.

Amcanion

Beth sy'n digwydd yn yr amgylchedd addysgu sy'n cyfathrebu pwrpas y profiadau? Beth gallwch ei arsylwi am y modd y mae gweithgareddau'r wers yn berthnasol at y pwrpasau hyn?

Pwrpas y gêm yn amlwg oedd i ailadrodd ac atgyfnerthu'r geirfa a ddysgwyd eisioes, a cheisio ailadrodd a dysgu'r geirfa yma yn y Gymraeg i'r plant. Mae gallu siarad a defnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth yn amrywio'n fawr, a'r athrawes wedi gweld dirywiad mawr yn eu gallu o ganlyniad i'r amser dysgu a gollwyd o ganlyniad i'r clo mawr.

Cyfeiriad

(Beth gellir ei arsylwi sy'n helpu dysgwyr i ddeall yr hyn maent yn ymwneud ag ef)?

Roedd y cliwiau ar y sgrîn, h.y. dim ond yn dangos darn o'r llun drwy 'binociwlars' yn gliw mawr ac yn hoelio sylw'r plant yn syth i geisio dyfalu ac yna'n eu gorfodi i feddwl am y geiriau yn y Gymraeg. Roedd yr athrawes hefyd yn defnyddio ystod o gwestiynau er

meyn hybu'r dysgu ac ehangu ar yr hyn roedd y plant yn arsylwi. Er enghraifft gyda dail, gofyn pa fath o liwiau mae'r dail yn troi yn yr Hydref, beth sy'n digwydd iddynt (cwympo) ayyb. Cwestiynau oedd yn amlwg yn ailadrodd yr hyn roeddent wedi eu dysgu ynghynt.

Mynediad a her

Beth gellir ei arsylwi yn yr amgylchfyd sy'n galluogi ymglymiad dysgwyr? Beth gellir ei arsylwi ar lefelau her?

Nid oedd y plant yn cael gweld y llun cyfan felly roedd hwn yn gwneud iddynt ffocysu a gorfod meddwl. Hefyd yr her mwyaf yn amlwg i'r plant oedd gorfod cofio'r gair yn y Gymraeg.

Asesu

(Gellir arsylwi unrhyw beth ar sut defnyddir wybodaeth blaenorol dysgwyr?

Gellir arsylwi ar unrhyw beth mewn perthynas a datblygu gwybodaeth yn ystod neu ar ôl y profiad)?

Yr unig modd roedd y plant yn cael ateb oedd drwy godi llaw - gall hwn fod yn modd i'r athrawes arsylwi ac asesu faint o'r dosbarth sydd wedi dysgu yr hyn maent wedi'u gwneud hyd yn hyn. Er enghraifft os nad oedd llawer o'r dosbarth yn codi llaw yna mae'n arwydd nad oes llawer o ddysgu wedi cymryd lle, ond yn ffodus nid dyma oedd y sefyllfa.

Hefyd roedd y plant oedd yn ateb yn llwyddiannus yn cael symud peg lan ar siart ddysgu ac ymddygiad o 'barod i wrando' i 'da iawn'. Mae hyn yn ffordd dda o nodi pa blant sy'n ymdrechu ac yn gwneud gwaith dda yn ystod y dydd.

Pethau penodol / Digwyddiadau critigol

(A oes eiliadau sy'n peri i chi ystyried agweddau o arfer pan dewch ar eu traws yn nysgu'r dyfodol)?

Roedd rhaid i'r plant godi llaw er mwyn ateb y cwestiynau, os oeddent yn gwaeddu allan nid oedd eu hateb yn cael ei ystyried a'r athro/awes yn dweud wrth y plentyn i fod yn dawel. Ni gafodd pob plentyn eu dewis, ac felly ni chafwyd eu gwobrwyo, hyd yn oed os oeddent yn gwybod yr ateb. Gall hyn olygu os mai'r un plant sy'n codi llaw bob bore/cwestiwn, neu'r un plant yn cael eu dewis ni fydd pob plentyn yn cael symud eu peg na chael sticyr.

Un plentyn (X) yn siomi pan na chafodd ei ateb ei ystyried. Roedd hyn yn amlwg drwy iaith ei gorff, fe groesodd ei freichiau, pen i lawr a gwyneb trist. Ac o ganlyniad fe wrthododd drïo eto i ateb drwy godi llaw.

Er hyn, roedd y plant yn dilyn y rheolau ar ôl sylweddoli roedd gweiddi allan yn annerbyniol ac felly'n dilyn disgwyliadau'r athrawes.

COFNOD ADNABOD DIWYDDIAD CRITIGOL

Manylion perthnasol at	Amser carped yn y bore, tua 9 o'r gloch ar ôl gwneud y gofrestr a chymryd manylion cinio neu brechdannau
-------------------------------	--

cyd-destun yr ymchwil. Dyddiad/amser. Oed/cyfnod y grŵp. Ymglymiad pobl. Gwybodaeth cyd-destunol o'r nodiadau maes.	• Dosbarth derbyn cyfan, 26 o blant • Cyflwyniad cyflym i'r thema yn mynd drost yr hyn maent wedi eu dysgu yn flaenorol a geirfa pwysig i'r thema drwy chwarae gêm o "Beth wela i?" – lle nad ydynt yn gallu gweld y llun cyfan dim ond darn o'r llun drwy binociwlars ar y sgrîn ar flaen y dosbarth
<i>Beth ddygwyddodd? Disgrifiad manwl o'r hyn a welsoch a'r meddyliau ar bedagogaeth ag arfer a ddaeth atoch fel canlyniad, wrth edrych ymlaen at eich maes ymchwil.</i>	Er mwyn ymateb i'r hyn a welwyd ar y sgrîn ac ateb cwesitynau'r athro/awes, roedd yn rhaid i bob plentyn godi llaw. Os oeddent yn gwaeddu allan roedd yr athrawes yn dweud wrthynt i fod yn dawel, a ddim yn cymryd sylw o'r ateb. Os oedd yr ateb yn gywir, roedd y plant yn cael eu gwobrwyo drwy symud eu peg i fyny ar y siart ddysgu ac ymddygiad, ac ambell un yn cael sticyr. Un plentyn (X) yn siomi pan na chafodd ei ateb ei ystyried. Roedd hyn yn amlwg drwy iaith ei gorff, fe groesodd ei freichiau, pen i lawr a gwyneb trist. Ac o ganlyniad fe wrthododd drio eto i ateb drwy godi llaw. Yn amlwg mae'n anodd beriniadu wedi ond gweld hwn yn digwydd unwaith, ond os yw hyn yn ddull sy'n cael ei hailadrodd llawer yn y dosbarth, gallwn ddychmygu mai'r un plant sy'n ateb ac o ganlyniad yr un plant sy'n cael eu gwobrwyo. Efallai gall hyn gael effaith ar ymdrechion plant penodol i feddwl dros eu hun ac ymdrechu i ffocysu os oes plant yn ateb drostynt ta beth. Er hyn, roedd y nifer o ddwylo i fyny ar ddechrau'r sesiwn yn dangos bod y plant yn awyddus i ddysgu, ond nifer y dwylo i fyny yn gollwng erbyn diwedd y cwesitynu. Roedd y cwesitynau yn mynd yn fwy anodd ac mae angen sicrhau bod yr amgylchedd dosbarth yn un lle mae plant yn ymwybodol bod gwneud camgymeriadau neu ddim yn gwybod yr ateb i gwestiynau yn iawn: Efallai bod yna ddulliau gwahanol o gwestiynu i gael, i ymchwilio i fewn i, er mwyn annog bob disgybl i orfod meddwl am ateb a pheidio bod yn ofn i ddwud nad ydynt yn sicr a gofyn am help yn hytrach na phryderu am ateb.

Atodiad 2**Arsylwad / Nodiadau Maes**

(Addasiad o Fletcher Wood (2016))

Ymchwilydd: Sara Mai Davies**Dyddiad, amser, grŵp:**

29/09/2020

10:10

7 o blant - grwp triongl - grwp o'r gallu gorau

Manylion y wers: (Cynnwys a ffocws -/MDaPh Pwnc- A yw e'n agos at gychwyn neu diwedd yr uned astudio? Tu fewn/tu fas? Ystod gallu? Unrhyw wybodaeth berthnasol arall?

Tasg Ffocws:

- Tynnu llun a lliwio dail yr Hydref a welwyd ar ôl mynd am dro yn y llyfrau
 - Dewis y lliwiau cywir yn gyntaf
 - Ar ôl y llun, ysgrifennu "dail" ar waelod y dudalen, neu ailadrodd y lythyren 'd' – dibynnu ar gallu
 - Plentyn X – galluog ond anghenion canolbwyntio ac ymddygiad – yn ei weld yn anodd i aros ar dasg
 - Athrawes yn cadw ei annog i orffen y dasg fel gallai fynd i wneud gweithgareddau eraill oedd yn dal ei sylw
 - Plentyn yn ei weld yn anodd i ddal pensil
 - "edrych ar Miss Y"
 - Fe wnaeth y plentyn orffen y dasg cyn pawb arall a chael gadael y bwrdd
 - Er hyn, er mwyn gwella ei sgiliau dal pensil, aeth i ymarfer ffurfio llythrennau gyda'r cynorthwyydd dosbarth ar ei ben ei hun, heb unrhyw wrthdyniadau
 - Athrawes wedi gweld dirywiad mawr yn ei allu ffurfio a dal pensil ers y clo mawr – gweithio gydag ef yn annibynnol
 - Trin yn wahanol? Cael gadael y dasg am ychydig cyn mynd i ymarfer – ymyrraeth ar y pryd

Diwylliant y dosbarth

Beth yw 'naws' y dosbarth? Beth yw agweddau, rhagdueddiadau, ymddygiadau tuag at ddysgu ar hyn o bryd?

- Grwp ffocws gyda'r athrawes tra bod y grwpiau eraill yn cyflawni gweithgareddau ytn yr ardaloedd (ynghlwm a'r thems) e.e. rheoli pensil, creu lluniau allan o ddail, chwarae rôl tent, ardal gwlyb, peintio gyda dail
- Plant yn y grwp ffocws l gyd yn awyddus i ddysgu
- Gyda'r gweithgareddau parhaus o amgylch y dosbarth, plentyn X yn ei weld yn anodd i fod ar dasg - angen cymorth i ddewis beth i wneud - plant eraill yn fwy annibynnol

Amcanion

Beth sy'n digwydd yn yr amgylchedd addysgu sy'n cyfathrebu pwrpas y profiadau? Beth gallwch ei arsylwi am y modd y mae gweithgareddau'r wers yn berthnasol at y pwrpasau hyn?

Digon o annog yn dod o'r athrawes wrth geisio cadw'r disgybl ar dasg
Ailadrodd iddo ddal y bensil yn gywir, dewis lliw, lliwio, ffurfio

Cyfeiriad

(Beth gellir ei arsylwi sy'n helpu dysgwyr i ddeall yr hyn maent yn ymwneud ag ef)?

Atgyfnerthu y lliwiau maent yn defnyddio ac yn dewis, ac ailadrodd a modelu sut i ddal pensil. Yna, ymyrraeth ar y pryd yn ei ddanfôn i ffwrdd i ymarfer ffurfio mewn ffyrdd y mae ef yn dangos diddordeb ynddo er mwyn ymarfer dal pensil, e.e. rhoi dewis iddo pa lythyren hoffai ef ffurfio, enw cyntaf ei enw ayyb.

Mynediad a her

Beth gellir ei arsylwi yn yr amgylchfyd sy'n galluogi ymglymiad dysgwyr? Beth gellir ei arsylwi ar lefelau her?

Lefel her yn addas ar gyfer bob disgybl - y rhai galluog yn cael eu gwthio i ffurfio llythrennau a geiriau mwy heriol, a phob plentyn yn ymarfer ffurfio unrhyw lythyren roeddent wedi ffurfio'n anghywir neu wedi cael trafferth wrth ffurfio.

Ymyrraeth ar y pryd - sicrhau roedd y disgybl ddim yn gadael y dasg o ganlyniad i golli diddordeb ond yn mynd i weithio a chael ei herio i gadw ymarfer ffurfio llythrennau a dal pensil yn gywir.

Asesu

(Gellir arsylwi unrhyw beth ar sut defnyddir wybodaeth blaenorol dysgwyr?
Gellir arsylwi ar unrhyw beth mewn perthynas a datblygu gwybodaeth yn ystod neu ar ôl y profiad)?

Asesu drwy arsylwi - sut roedd yn dal pensil.

Oedd yr her yn ormodol iddo a beth sydd angen ymarfer?

Pan roedd wedi colli diddordeb yn llwyr, ei wahanu o'r grŵp ac unrhyw wrthdynciadau.
Annog i'w gadw ar dasg, ond hefyd yn gwybod pryd oedd yn amser iddo newid gweithgaredd, gan nad oedd unrhyw dysgu yn cymryd lle.

Pethau penodol / Digwyddiadau critigol

(A oes eiliadau sy'n peri i chi ystyried agweddau o arfer pan dewch ar eu traws yn nysgu'r dyfodol)?

Defnyddio ymyrraeth ar y pryd er mwyn addasu tasgau a sicrhau bod dysgu'n cymryd yn lle mewn modd sy'n addas ac yn effeithiol ar gyfer pawb yn y dosbarth

COFNOD ADNABOD DIWYDDIAD CRITIGOL

Manylion perthnasol at cyd-destun yr ymchwil. Dyddiad/amser. Oed/cyfnod y grŵp. Ymglymiad pobl. Gwybodaeth cyd-destunol o'r nodiadau maes.	Roedd yr athrawes yn arwain tasg ffocws lliwio dail hydref yn y lliwiau cywir gyda grwp mwyaf galluog y dosbarth, tra roedd gweddill y dosbarth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi o amgylch y dosbarth. Roedd 7 o ddysgwyr yn y grwp a chymerodd y dasg rhan yn syth ar ôl amser chwarae'r plant. Roedd un dysgwr yn y grwp (Plentyn X) yn blentyn alluog iawn ond yn ei chael hi'n anodd iawn i ganolbwyntio, a'r athrawes wedi nodi bod yna ADY yn bresennol
<i>Beth ddygwyddodd? Disgrifiad manwl o'r hyn a welsoch a'r meddyliau ar bedagogaeth ag arfer a ddaeth atoch fel canlyniad, wrth edrych ymlaen at eich maes ymchwil.</i>	Er mwyn i'r ddysgwr orffen y dasg i'r botensial lawn, roedd yr athrawes yn cadw ei annog drwy dynnu ei sylw pan roedd hi'n sylweddoli ei fod yn dechrau colli canolbwyntiad. Roedd y dysgwr yn gofyn yn aml "Can i go play now?" ac roedd yn rhaid i'r athrawes gadw dweud y bydd yn cael mynd i chwarae unwaith mae wedi lliwio'r dail i gyd a ffurfio llythrennau. Roedd hyn yn amlwg yn ei annog i orffen ei waith. Unwaith iddo orffen, roedd yn cael gadael y bwrdd (yn wahanol i'r dysgwyr eraill) er mwyn mynd i ddewis ardal cyfoethogi am ychydig. Er hyn, wrth iddo ffurfio roedd yr athrawes yn ymwybodol bod ei sgiliau dal pensil a ffurfio wedi dirywio llawer yn ystod yr amser i ffwrdd o ganlyniad i Feirws Gorona-19, ac wedi iddo gael amser yn chwarae roedd yn cael un i un gyda'r cynorthwydd yn ymarfer dal pensil a ffurfio. Yn amlwg o'r ddigwyddiad yma, roedd y dysgwr yn cael ei drin ychydig yn wahanol er mwyn iddo allu gyrraedd ei botensial llawn, a derbyn yr addysg yn y modd oedd fwyaf addas iddo ef i sicrhau bod yna ddatblygiad a dysgu yn cymryd lle.

Atodiad 3**OBSERVATION / FIELD NOTES****Researcher: Sara Mai Davies**

(Questions adapted from Fletcher Wood (2016))

Date and time, year group:

30/09/2020

9:20

Derbyn

Lesson details: (Context and focus -/AoLE/subject- is it near start of end of unit of study? Indoors/outdoors? Ability range? Any particularly relevant information).

Plant wedi eu gwahanu yn grwpiau, rhai tu allan a rhai tu fewn yn cyflawni tasgau yn yr ardaloedd cyfoethogi thema. Felly'r plant yn dewis pa weithgareddau maent eisiau ymgymryd ynddo:

- Numicons cymesur
- Creu dail cymesur yn defnyddio siapau
- Torri allan a gludo siapau hydref
- Cyfateb siapau 2D mewn gêm ar y sgrîn - 2 blentyn yn unig fel rheol

Classroom culture

(What is the classroom 'vibe.'? What do attitudes, dispositions, behaviours towards learning seem like at this point in time?)

Rhan fwyaf o'r grwp, o dua 12 plentyn, yn amlwg yn deall ac yn dilyn rheolau o ddewis ac ymgymryd mewn gweithgaredd - yn awyddus i ddysgu ac yn gwybod y drefn gyda'r athro/awes yn crwydro i sirchau bod pawb ar dasg ac yn deall.

Objectives

(What happens in the environment that communicates the purpose of the experiences? What can be observed regarding the way lesson activities relate to these purposes?)

Bod plant yn magu annibyniaeth a datrys problemau wrth gyflawni'r gweithgareddau yn eu lle. Plant yn hapus i ofyn am help neu dangos gwaith maent wedi cyflwyno, a'r athrawes yn cywiro ac yn helpu lle bod angen.

Direction

(What can be observed that helps learners understand what they are engaging in? What in the environment helps them understand how to achieve well?)

Athrawes yn crwydro i sirchau bod pawb ar dasg, ac yn cywiro neu'n sgaffaldu lle bod angen, wrth gadw hybu annibyniaeth.

Plant hefyd yn ymwybodol unwaith maent wedi cyflawni un dasg yn llwyddiannus, roeddent yn cael symud ymlaen i weithgaredd arall fel y dymunwyd.

Access and challenge

(What can be observed in the environment that enables engagement of learners? What can be observed regarding levels of challenge?)

Roedd lefel her y gweithgareddau yn addas ar gyfer bob plentyn, er hyn er enghraifft gyda'r dasg numicons cymesur, nid oedd pob plentyn wedi deall nod y dasg. Efallai bod hyn wedi cael ei gyflwyno iddynt yn flaenorol, ond efallai fyddai ailadrodd nod y dasg

wedi bod o fudd i wthio'r plant er mwyn llwyddo'r her o drefnu'r numicons yn gymesur yn hytrach na'u trefnu yn ôl y rhifau.

Assessment

(Can anything be observed about how student's existing knowledge is used? Can anything be observed regarding the development of knowledge during or after the experience)?

Dechreuodd y sesiwn gyda chyflwyniad yn ail fynd dros ac adnabod siapau 2D. Roedd y plant hefyd wedi bod yn cyflawni tasgau ffocws creu patrymau cymesur yn flaenorol, ac roedd hyn yn amlwg eu bod wedi deall yr hyn roedd cymesur yn meddwl, er roedd angen cwpl o gywiriadau a chymorth ar ambell i achlysur.

Specifics / Critical Incidents

(Are there moments which cause you to consider aspects of practice when you come across them in future teaching)?

Gan mai'r plant oedd yn dewis, un plentyn (X), am ymuno mewn tasg penodol, sef y torri allan, ond roedd y bwrdd yn llawn a dim rhagor o sisiyrnau. Roedd yn amlwg drwy'r cyfnod arsylwi nad oedd ei ymddygiad cystal ag ambell i blentyn ac yn peri ychydig o ofid ar yr athrawes. Felly yn hytrach nag aros ei dro, fe aeth ati i ddwyn sisiwrn oddi wrth plentyn arall. Er mwyn delio â hyn mewn modd fyddai'n cael yr effaith orau ar y plentyn, fe wnaeth yr athrawes gerdded draw iddo, gafael yn ei law a'i fynd i gornel y dosbarth er mwyn gael gair bach tawel gydag ef ynghlyn a'i ymddygiad. Gan holi iddo beth oedd yn ei wneud, os oedd yna le iddo ar y bwrdd a gofyn yn garedig iddo fynd i ddewis gweithgaredd arall ac aros ei dro i dorri allan. Roedd hyn yn amlwg yn ddull mwy effeithiol na chodi llais o flaen y grwp cyfan, oherwydd wnaeth ddisgybl X ufuddhau i'r cyfarwyddiadau yma a mynd ati i gymryd rhan mewn gweithgaredd nes roedd yna le iddo ar y bwrdd. Felly, mae'r ffordd o ddisgyblu plant yn amlwg yn gorfod bod yn addas er mwyn cael y ganlyniad dymunol.

CRITICAL INCIDENT IDENTIFICATION RECORD

Details relevant to the research context. Date/time. Age/Stage of group. People involved. Contextual information from field notes.	Yn dilyn y gofrestr yn y bore, roedd y plant yn cael y cyfle i ddewis gweithgareddau cyfoethogi i gymryd rhan ynddynt. Roedd 2 allan o 4 grwp yn dewis yn y dosbarth, a 2 grwp tu allan, felly roedd tua 15 o blant yn y dosbarth. Tra roedd y plant yn dewis roedd yr athrawes a'r cynorthwyr yn crwydro i sicrhau roedd pob plentyn ar dasg ac yn deall. Y dewis oedd: • Cymesur numicons • Creu dail cymesur yn defnyddio siapau • Torri allan a gludo siapau hydref • Cyfateb siapau 2D mewn gêm ar y sgrîn - 2 blentyn yn unig fel rheol
<i>What happened? A detailed description of what you observed and</i>	Gan mai'r plant oedd yn dewis, un plentyn (X), am ymuno mewn tasg penodol, sef y torri allan, ond roedd y bwrdd yn llawn a dim rhagor o sisiyrnau. Roedd yn amlwg drwy'r cyfnod arsylwi nad oedd ei ymddygiad cystal ag ambell i blentyn ac yn peri ychydig o ofid ar yr athrawes. Felly yn hytrach nag aros ei dro, fe aeth ati i ddwyn sisiwrn oddi wrth plentyn arall. Er mwyn delio â hyn mewn modd fyddai'n cael

<i>what thoughts on pedagogy and practice occurred to you as a result, looking towards your research.</i>	yr effaith orau ar y plentyn, fe wnaeth yr athrawes gerdded draw iddo, gafael yn ei law a'i fynd i gornel y dosbarth er mwyn gael gair bach tawel gydag ef ynghlyn a'i ymddygiad. Gan holi iddo beth oedd yn ei wneud, os oedd yna le iddo ar y bwrdd a gofyn yn garedig iddo fynd i ddewis gweithgaredd arall ac aros ei dro i dorri allan. Roedd hyn yn amlwg yn ddull mwy effeithiol na chodi llais o flaen y grwp cyfan, oherwydd wnaeth ddisgybl X ufuddhau i'r cyfarwyddiadau yma a mynd ati i gymryd rhan mewn gweithgaredd nes roedd yna le iddo ar y bwrdd. Felly, mae'r ffordd o ddisgyblu plant yn amlwg yn gorfod bod yn addas er mwyn cael y ganlyniad dymunol.
---	--

2000381

Atodiad 4

wheelofnames.com

Newydd Agor Achyb Rhannu Addasu Sgrin llawn Mwy

Cymraeg

Rowch enwau yma

Cymysgwch Trefnwch Addiwch llun

A
B
C
Ch
D
Dd
E
F
Ff
G
Ng
H
I
J
L
Ll
M
N
O
P
R

28 ymgais

Fersiwn 97

